



POLISI DIOGELU



Plwyf / Ardal Weinidogaeth */ Ardal Genhadaeth *

(*Dim ond mewn Plwyfi unedig a chyfunol y dylid defnyddio enw'r Ardal Weinidogaeth / Ardal Genhadaeth)

AMCAN

Nod yr Eglwys yw diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl trwy ddarparu pobl ddiogel, llefydd diogel a gweithgareddau diogel, gan ddarparu'r gwariant, y weinyddiaeth, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth angenrheidiol a monitro ein polisi i'n galluogi ni i feithrin ynddynt y Ffydd Gristnogol, a hyrwyddo cenhadaeth Crist.

EIN HYMRWYMIAD I BLANT A PHOBL IFANC

"Gadewch i'r plant ddod ataf fi a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn." Mathew 19. 14

Ymhlyg yng ngeiriau lesu mae cydnabyddiaeth o statws unigryw plant a phobl ifanc .

- † Byddwn yn parchu plant fel pobl yn eu hawl eu hun ac yn rhoi gwarchodaeth arbennig iddynt oherwydd eu bod mor fregus.
- † Byddwn yn gweddio'n gyson dros ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.
- † Rydym yn derbyn ac yn pwysleisio prif egwyddor Deddf Plant 1989 mai lles y plentyn sydd bennaf bob amser.
- † Byddwn yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn onest gyda phlant a phobl ifanc.
- † Ni fyddwn yn cymryd mantais ar y berthynas hon o ymddiriedaeth.
- † Byddwn bob amser yn cynnal y safonau uchaf o ofal .

EIN HYMRWYMIAD I OEDOLION MEWN PERYGL

"Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chiwithau i garu'ch gilydd." Ioan 13. 34

Nid mater o weithdrefnau a rheolau yw gweinidogaeth fugeiliol gydag oedolion. Dylai clerigion, ymwelwyr bugeiliol llewyl a gweithwyr yr eglwys weithio gyda'i gilydd gydag oedolion mewn perygl a chydabod bod gan bob oedolyn mewn perygl hawl i'r canlynol :

- | | |
|--|--|
| † Cael eu trin â pharch ac urddas. | † Bod eu hawliau'n cael eu cynnal waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhywedd, rhywioldeb, nam neu anabledd, oed, crefydd neu gefndir crefyddol neu ddiwylliannol . |
| † Parch i'w preifatrwydd. | † Rhyddid i ddewis iaith neu ddull cyfathrebu. |
| † Gallu cael bywyd mor annibynnol â phosibl. | † I gael eu clywed. |
| † Gallu dewis sut i fyw eu bywyd. | |
| † Gallu dibynnu ar warchodaeth y gyfraith. | |

CANLLAWIAU AR ARFER DA

- Byddwn yn trin yn ddifrifol bob honiad o gamdriniaeth neu berygl o gamdriniaeth, yn gorfforol, rhywiol, emosiynol, ariannol neu o ran esgeulustod ac yn gweithredu'n unol â hynny fel y nodir ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru *.
- Bydd pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a/neu oedolion mewn perygl yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael ei hyfforddi'n briodol.
- Ac eithrio mewn argyfwng, bydd mwy nag un oedolyn bob amser gydag un neu fwy o blant neu bobl ifanc naill ai ar neu oddi ar y safle. Mewn sefyllfaoedd un i un byddwn yn sicrhau y gall oedolyn arall weld y lle neu'r ystafell.
- Byddwn yn cyfyngu ar beryglon i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl trwy ddarparu amgylchedd diogel a sicr. Bydd adeiladau'n cael eu gwirio o ran eu diogelwch yn unol â Rheoliadau a Chanllawiau Iechyd a Diogelwch yr Eglwys yng Nghymru.
- Os bydd angen cymorth meddygol, byddwn yn gofyn am ofal priodol.
- Byddwn yn sicrhau yswiriant digonol ar gyfer gweithgareddau ar ac oddi ar y safle.
- Wrth gludo plant neu oedolion mewn perygl mewn unrhyw gerbyd a drefnir gan y Fywoliaeth, byddwn yn sicrhau bod gan y cerbyd yr yswiriant priodol a bod y cerbyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Derbyniwyd y Polisi hwn gan y Cyngor Plwyf Eglwysig ar ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Llofnodwyd ar ran y Cyngor Plwyf Eglwysig.

***Mae modd gweld copi ar-lein o Bolisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru yn www.churchinwales.org.uk/cy/publications/administration-and-business/Safeguarding_Policy_Poster**

Ar gyfer ymholiadau diogelu cyffredinol, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu'r Plwyf: Enw **Rhif Ffôn**

Cydlynnydd Diogelu'r Ardal Weinidogaeth/Ardal Genhadaeth: Enw **Rhif Ffôn**

I siarad â rhywun am bryder, honiad neu ddatgeliad diogelu, cysylltwch â:

Fay Howe (Swyddog Diogelu Taleithiol Llandaf, Mynwy, Abertawe ac Aberhonddu) **Rhif ffôn 07551 124 219**

Wendy Lemon (Swyddog Diogelu Taleithiol Bangor, Llanelwy, Tyddewi) **Rhif ffôn 07392 319 064**